



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Russell George AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru

Seneddlechyd@senedd.cymru

11 Mai 2022

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth ynghylch datganiad ansawdd a chynllun Iechyd Menywod a merched.

Rwy'n rhannu barn y Pwyllgor bod angen rhoi mwy o flaenoriaeth i iechyd menywod nag a fu o'r blaen. Mae Cymru lachach yn cynnwys nod clir i sicrhau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ledled y wlad, fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu hyn drwy sicrhau bod menywod yn gallu cael mynediad at y gofal sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt a bod y gwasanaeth iechyd yn ymatebol wrth ddarparu'r gofal hwnnw. Rwyf felly wedi cyfarwyddo fy swyddogion i baratoi Datganiad Ansawdd ar iechyd menywod yn nodi sut mae angen i'r GIG yng Nghymru gynnig gwasanaethau o safon uchel i fenywod ac i gefnogi cydweithwyr yn y GIG yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Iechyd Menywod i Gymru a fydd yn nodi'r camau y bydd y gwasanaeth yn eu cymryd i fodloni'r disgwyliadau yn y Datganiad Ansawdd.

Bydd y Cynllun yn dilyn yr un dull cwrs bywyd a argymhellir gan RCOG yn ei adroddiad *Better for Women* a'i fwriad yw lleihau anghydraddoldebau iechyd, gwella tegwch gwasanaeth a gwella canlyniadau iechyd menywod yng Nghymru. Bydd y cynllun yn cynnwys camau tymor byr, canolig a hir a bydd yn cael ei gyflwyno'r hydref hwn.

Rwy'n ddiolchgar am y gwaith a wnaed gan y Glymblaid Iechyd Menywod Cymru i lunio cynigion ar gyfer datganiad ansawdd iechyd menywod. Fel y cadarnhaodd swyddogion yn barod i'r grŵp, bydd y ddogfen hon yn cael ei defnyddio yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Iechyd Menywod. Rwyf wedi'i gwneud yn hollol glir y dylai'r Cynllun gael mewnbwn sylweddol oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys y Glymblaid, i sicrhau bod lleisiau menywod yn cael eu clywed yn uchel ac yn glir a bod eu pryderon yn cael eu hadlewyrchu. Felly, bwriedir ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol datblygiad y Cynllun, yn ogystal â chynnal yr ymgynghoriad arferol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe fyddwch yn deall bod y cynllun yn dal i fod yn y camau datblygu cynnar ac felly nid wyf yn gallu cadarnhau'r cynnwys llawn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn ystyried yr holl dystiolaeth a ddarparwyd yn y sesiwn gyda'r Glymblaid a byddant yn sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y fersiwn derfynol o'r cynllun. Gallaf eich sicrhau bod swyddogion yn parhau i fod mewn cysylltiad agos ag aelodau'r Glymblaid ac yn cymryd eu pryderon o ddifrif. Byddaf, wrth gwrs, yn hapus i ddarparu diweddariad manylach unwaith mae'r gwaith wedi ei ddatblygu'n fwy llawn.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn wedi bod yn ddefnyddiol ac yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod gwella gwasanaethau iechyd menywod yn un o'm blaenoriaethau pennaf.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services